# Statws elusennol




## Ydyn ni’n mynd i sefydlu elusen?

Mae bod yn elusen yn golygu bod gan fudiad statws penodol. I fod yn elusen, rhaid i’ch gr p fodloni dau ofyniad cyfreithiol allweddol –

- Rhaid i’ch gr p weithredu ‘at ddibenion elusennol’ yn unig. Mae’r gyfraith yn nodi 13 diben a ystyrir yn rhai elusennol cyfreithiol The law sets out 13 purposes which are legally considered as being charitable
- Rhaid i’ch gr p weithredu er budd y cyhoedd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i weithgareddau eich gr p fod o fudd i’r cyhoedd neu i gyfran digon mawr o’r cyhoedd. Rhaid bod modd hefyd o adnabod y budd a darparu tystiolaeth ohono

Os ydych chi’n ystyried sefydlu a chofrestru elusen, argymhellwn yn gryf eich bod yn darllen holl ganllawiau’r Comisiwn Elusennau (Saesneg yn unig) cyn dechrau eich cais.

Gallwch hefyd benderfynu sefydlu elusen fechan a’i chofrestru’n ddiweddarach, unwaith y bydd eich incwm yn cyrraedd y trothwy ar gyfer cofrestru elusen (£5,000 y flwyddyn ar hyn o bryd).

Efallai nad yw eich gr p yn bodloni’r meini prawf ar gyfer dod yn elusen, ond gallwch barhau i weithredu er budd y gymuned mewn ffyrdd eraill.

Mae hwn yn faes manwl a byddwch chi si r o fod eisiau help i weithio drwy hwn. Bydd eich cyngor gwirfoddol sirol lleol (CVC) yn gallu eich cynorthwyo a rhoi gwybodaeth a chyngor i chi.

Mae cyngor am sefydlu elusen ar gael i fudiadau gwirfoddol drwy’r rhwydwaith o gynghorau gwirfoddol lleol (CVCs).

**Ffynonellau eraill o wybodaeth**

Mae gan y Comisiwn Elusennau ganllawiau amrywiol ar gyfer pobl sy'n ystyried sefydlu elusen:

Ai bod yn elusen yw'r opsiwn cywir (Saesneg yn unig)

Beth sy'n gwneud elusen (Saesneg yn unig)

# Cofrestru fel elusen

Os yw eich gr  p yn dymuno elwa ar statws elusennol, mae gofynion ychwanegol o ran y cofrestru y bydd angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt.

Bydd grwpiau sy'n sefydlu eu hunain fel Mudiad Corfforedig Elusennol yn cael ei gofrestru'n awtomatig gyda'r Comisiwn Elusennau (sef y rheoleiddiwr elusennau yng Nghymru a Lloegr) fel rhan o'r broses sefydlu.

Bydd angen i bob elusen arall gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau:

- os oes gan yr elusen, neu os yw'r elusen yn disgwyl cael, incwm blynyddol o fwy na £5,000
- os nad yw'r elusen wedi'i hesemptio neu'n elusen a eithrir

Mae'r rhestr o elusennau sy'n elwa ar esemptiad neu eithriad yn un eithaf bychan, ond gellir gweld y manylion ar wefan y Comisiwn Elusennau yma:

Elusennau wedi'u hesemptio (Saesneg yn unig)

Elusennau a eithrir (Saesneg yn unig)

O dan y rheolau hyn, efallai y bydd angen i chi gofrestru eich elusen pan gaiff ei sefydlu'n gyntaf, neu'n ddiweddarach os bydd eich gr  p yn cyrraedd y trothwy incwm. Mae'n bwysig nodi, hyd yn oed os na fydd eich elusen yn cael ei chofrestru, bydd yn rhaid i chi barhau i ddilyn y gyfraith elusennau, a cheir rhagor o wybodaeth am hyn yn ein hadran Lywodraethu.

Gall cofrestru elusen fod yn broses anodd a dyrys, ond mae help ar gael gan eich cyngor gwirfoddol sirol lleol.

**Ffynonellau eraill o wybodaeth**

Canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar sut i gofrestru elusen

Fideo am ddim LawWorks ar gofrestru elusen (Saesneg yn unig)